# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL
# 9 MEDI 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Llun, 9 Medi 2019.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Geoff Collett, Paul Johnson, Tudor Jones, Brian Lloyd, Martin White a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Sean Bibby, Andy Dunbobbin, Ralph Small, Andy Williams, Prif Weithredwr a Phrif Swyddog (Strydwedd a Chludiant)

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau) Cynghorydd Carolyn Thomas (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad), Cynghorydd Dave Hughes (Aelod Cabinet Tai) Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a Rheolwr Budd-daliadau (Tai ac Asedau)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a'r Amgylchedd a Swyddog Cymorth Gwasanaethau Democrataidd

## 20. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Cyfeiriodd y Cynghorydd Tudor Jones at gyfarfodydd blaenorol ble roedd wedi datgan cysylltiad oherwydd ei gysylltiadau gyda Chanolfan Hamdden Treffynnon a gofynnodd a ddylai wneud hynny eto. Dywedodd y Cadeirydd y byddai nodyn yn y cofnodion yn ddigon.

## 21. COFNODION

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod ar 1 Gorffennaf a 9 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**
Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor gymeradwyo symud eitem 7 ar y rhaglen ymlaen i fod yn eitem 6 er mwyn i'r rhaglen lifo'n well. Cytunwyd ac eiliwyd gan aelodau'r Pwyllgor oedd yn bresennol.

## 22. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yr adroddiad oedd yn amlinellu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol drafft presennol y Pwyllgor. Yna rhoddodd ddiweddariad ar yr eitemau oedd yn weddill ar yr atodiad Camau Gweithredu a gwybodaeth ar gynnydd eitemau eraill.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) at Wasanaeth Teledu Cylch Cyfyng y Cyngor a chadarnhaodd drafodaethau gyda Chomisiynydd yr Heddlu a

Throsedd ynglŷn â chyfraniadau ariannol uwch unwaith y byddai'r teledu cylch cyfyng wedi'i adleoli yn llwyddiannus yn Wrecsam.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo;

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu heb eu cwblhau.

## 23. MODELAU DARPARU AMGEN CAM 2

Cyflwynodd y Prif Swyddog yr adroddiad a gyflwynwyd i geisio cefnogaeth y Pwyllgor. Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo'r rhestr o flaenoriaethau ac roedd yna hefyd gysylltiadau gyda Chynllun y Cyngor. Yna rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf ar bob un o'r Modelau Cyflawni Amgen (ADM):-

- Gwasanaeth Monitro a Rheoli Teledu Cylch Cyfyng
- Theatr Clwyd.
- Gofal Micro (Gwasanaethau gofal cartref yn y gymuned)
- Gwasanaethau Masnachu Strydwedd a Chludiant
- Gwasanaethau Masnachu Cyfrif Refeniw Tai
- Menter Tlodi Bwyd
- Cwmni Ynni Gwyrdd

Gofynnodd y Cynghorydd David Wisinger y cwestiynau canlynol ar y profion MOT yn Alltami a chynnig i ddarparu gwasanaeth nwy a thrydan:-

- Oedd yna ddigon o le parcio i gleientiaid yn y Depo?
- A fyddai gwaith arall yn cael ei ystyried fel gwasanaethu cerbydau?
- Ynglŷn â gwasanaethu nwy a thrydan a fyddai hyn yn cael ei wneud gan un swyddog?

Mewn ymateb i'r pwynt cyntaf, eglurodd y Prif Swyddog fod hyn yn parhau yn y camau cysyniad ond y cynnig oedd unwaith y byddai cerbydau'r Cyngor wedi gadael y depo yn y bore y byddai yna le ar gael i barcio yn y cefn wrth y gweithdy ar gyfer hyn. O ran y cwestiwn gwasanaethu ceir, dywedodd y byddai yna gyfleoedd i gynnwys gwaith arall ond nid oedd yn hysbys ar hyn o bryd gan fod y prosiect yn y cam cysyniad i'w ddatblygu ymhellach. Ynglŷn â'r cynnig Gwasanaethu Nwy a Thrydan (Gwasanaethau Tai) dywedodd fod hyn eto yn y camau cynnar iawn ac y ceisir defnyddio a datblygu'r gwasanaeth o fewn y Sefydliad Llafur Uniongyrchol Tai. Dywedodd y Cynghorydd Wisinger fod hyn yn gam cadarnhaol iawn gan fod yna alw am y math yma o wasanaeth yn arbennig gan landlordiaid preifat.

Cyfeiriodd Geoff Collett at Theatr Clwyd a gofynnodd ai'r model arfaethedig oedd y mwyaf effeithiol o ran treth i'r Theatr. Cyfeiriodd at Sw Caer

lle gofynnwyd i noddwyr arwyddo dogfen i alluogi'r Sw i hawlio 26% yn ôl gan y Llywodraeth. Nid oedd y Sw yn Fodel Ymddiriedolaeth Annibynnol ond gofynnwyd a fyddai'r Theatr yn gallu hawlio rhywfaint o dreth yn ôl fel y Sw.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog y byddai'r model yn galluogi'r Theatr i dderbyn buddion o'r Dreth Gorfforaeth a'r Dreth Ar Werth. Roedd yna gyfleoedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnes, mynediad i gyllid elusennol ac alinio modelau cyflogaeth gyda theatrau eraill a fyddai hefyd yn fuddiol. Byddai hyn yn rhoi mwy o ryddid i'r Theatr gynllunio sut yr oeddent yn gweithredu. Roedd yna lawer o waith yn cael ei wneud ond byddai adroddiad manwl ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn yr hydref.

Gofynnodd y Cynghorydd Tudor Jones am eglurhad ar y pwyntiau canlynol ynglŷn â Model Cyflawni Amgen Gwasanaethau Masnachu Cyfrif Refeniw Tai

- A fyddai hyn yn cael ei sefydlu fel yr ADM Aura neu'n cael ei reoli gan y Cyngor?
- A fyddai hyn yn effeithio ar gyrff elusennol presennol eraill fel Gofal a Thrwsio ac a ellir ystyried partneriaeth gyda'r gweithredwyr hynny gan ei fod yn teimlo ei bod yn bwysig nad oeddent dan anfantais?
- Ynglŷn â chyflogi staff a allai fod yn faich ariannol anferth, cyfeiriodd at sut yr oedd Gofal a Thrwsio yn gweithredu drwy ddefnyddio masnachwyr lleol hunangyflogedig pan oedd angen. A fyddai hyn yn rhywbeth a ddefnyddir yn y model hwn yn arbennig os oedd yn sefydliad elusennol ac yn arbed arian?

Mewn ymateb i'r pwynt cyntaf nid oedd y Prif Swyddog yn rhagweld hyn mor fawr ag Aura ond gellir cynnig y gwasanaethau hynny a chreu rhywfaint o incwm i'r Cyfrif HRA. Cytunodd ei bod yn bwysig nad oedd sefydliadau eraill o dan anfantais ond dywedodd fod hon yn farchnad fawr ac nad oedd y sefydliadau hyn yn defnyddio'r holl agweddau. Roedd yna lawer o waith i'w wneud eto i sicrhau bod y Cyngor yn deall y farchnad, gyda chwmpas i ddatblygu ac yn gystadleuol. Ynglŷn â'r trydydd pwynt, dywedodd y Prif Swyddog y byddai'r ADM hwn yn galluogi defnyddio'r staff DLO presennol gyda'r posibilrwydd o allu tyfu ac ymestyn i farchnad newydd a chyffrous.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Jones at y Cwmni Ynni Gwyrdd ac roedd ganddo amheuon y byddai Sir y Fflint yn ddigon mawr i symud ymlaen gyda hyn. Darparodd wybodaeth ar y cynlluniau ym Mryste a Nottingham oedd yn ddinasoedd mawr gyda chronfeydd mwy a gofynnwyd a oedd cynlluniau mewn awdurdodau eraill wedi eu hystyried. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog fod prosiectau eraill wedi eu hymchwilio a bod y dyluniad wedi'i ystyried yn ofalus gyda Sir y Fflint yn dilyn llwybr gwahanol. Darparodd wybodaeth ar brosiect Ynni Robin Hood yn dweud fod yna lawer o berygl o amgylch y model hwnnw a gallai Sir y Fflint werthu ynni yn ôl i'r grid oedd yn lwybr mwy diogel gyda chyfradd wedi'i warantu. Ychwanegodd fod gwaith yn parhau i archwilio a nodi pa fodel i'w ddefnyddio, ond bod y prosiect hwn yn y cam cysyniad ar hyn o bryd. Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl cyrraedd cam dau.

Yna gofynnodd y Cynghorydd Johnson a oedd trafodaethau wedi eu cynnal gydag awdurdodau cyfagos efallai drwy'r Cynnig Twf Economaidd Gogledd Cymru yr oedd yn teimlo fyddai'n well llwybr i'w gymryd gyda mwy o sail cwsmer. Hefyd gofynnodd a gynhaliwyd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru (LlC) gan y gall Sir y Fflint fod yr awdurdod cyntaf i wneud hyn yng Nghymru. Mewn ymateb, cytunodd y Prif Swyddog gyda sylw'r Cynghorydd Johnson ynglŷn â chydweithio gydag awdurdodau cyfagos yn dweud bod yna botensial a chyfleoedd i Ogledd Cymru ddatblygu ac archwilio hyn o fewn y fargen dwf. Dywedodd y Prif Swyddog nad oedd yn ymwneud yn helaeth â'r Fargen Dwf ond roedd yn teimlo y byddai trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru ac efallai y bydd yna gyfleoedd am gymorth grant ar gyfer prosiectau arloesi a allai yrru hyn ymlaen.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad fod Awdurdodau Gogledd Cymru yn caffael eu hynni gyda'i gilydd fel consortiwm rhanbarthol i gael cyfradd well ac o fis Hydref byddai hyn o ffynonellau adnewyddadwy. Roedd Sir y Fflint wedi newid i oleuadau stryd LED oedd wedi creu arbediad a ailfuddsoddwyd yn y gwasanaeth. Roedd y Cynghorydd Johnson yn teimlo fod hon yn stori gadarnhaol y dylid ei hybu mwy ar y wefan. Cytunodd yr Aelod Cabinet gan ddweud fod Sir Ddinbych yn ei hybu ar eu tudalennau Twitter a Facebook.

Yna rhoddodd yr Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad ar y Grŵp Trafnidiaeth Rhanbarthol oedd yn bwydo i mewn i Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru adroddiad lle trafodwyd pwyntiau gwifro trydanol i sicrhau bod costau'n cael eu rhannu'n rhanbarthol. Roedd swyddog o'r Grid Cenedlaethol wedi mynychu'r cyfarfod i leisio eu pryderon ynglŷn â lle byddai'r pwyntiau gwefru hyn yn cael eu lleoli gan y byddai hyn yn effeithio ar y galw ar y grid. Roedd yna gyllid ar gael ar gyfer hyn ac roedd y grŵp hefyd yn edrych ar gael yr ynni o Barc Adfer. Roedd pŵer hydrogen hefyd yn cael ei ymchwilio gyda'r hydrogen mewn tanceri ac yna ei ddefnyddio fel tanwydd,

Roedd y Cadeirydd yn canmol yr Aelodau am eu cyfraniad a dywedodd fod y Cwmni Ynni Gwyrdd yn symud yn gyflym gyda chyfleoedd diddiwedd. Roedd y pwyllgor hwn yn edrych ar syniadau gyda meddwl agored ac roedd yna gyfleoedd hanfodol y gellir eu harchwilio i sicrhau nad oedd technolegau newydd yn cael eu methu.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd David Wisinger a'i eilio gan y Cynghorydd Janet Axworthy.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi ail gam y rhaglen Model Cyflawni Amgen; a

(b) Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau pellach, ynghyd â'r Cabinet, sy'n gwerthuso pob un o'r modelau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer ystyriaeth fwy manwl cyn unrhyw benderfyniad ffurfiol ar eu dyfodol, gan nodi bod llawer o'r modelau wedi datblygu a bod un (y Gwasanaeth Monitro Teledu Cylch Cyfyng) wedi derbyn cymeradwyaeth ymlaen llaw ac ar wahân.

**24. ADRODDIAD CYNLLUN Y CYNGOR AR GYFER 2018/19**

Cyflwynodd y Prif Swyddog yr adroddiad oedd yn dadansoddi'r perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad y Cynllun Gwella. Nid oedd yna ddangosyddion perfformiad yn dangos statws coch ar gyfer perfformiad presennol yn erbyn targedau.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Martin White a'i eilio gan y Cynghorydd Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y pwyllgor yn cymeradwyo Adroddiad Monitro Cynllun Diwedd Blwyddyn 2018/19 y Cyngor.

**25. MENTER BWYD SIR Y FFLINT AC YMATEB I'R TLODI BWYD**

Cyflwynodd y Prif Swyddog yr adroddiad oedd yn rhoi gwybodaeth ar ddatblygu'r fenter bwyd ac ymateb i dlodi bwyd. Roedd y prosiect wedi datblygu o'r ymgyrch llwgu yn ystod gwyliau i bartneriaeth gyda Clwyd Alyn, Can Cook a Chyngor Sir y Fflint i ffurfio menter gymdeithasol. Cyfeiriodd yr Aelodau at adran 1.09 o'r adroddiad oedd yn cynnwys amcanion y fenter gymdeithasol ac y byddai'r model pryd ar glud hefyd yn darparu agwedd gymdeithasol i'r cymunedau yn arbennig ardaloedd gwledig lle na fyddai gan drigolion lawer o gyswllt cymdeithasol a rhyngweithio o ddydd i ddydd. Yna rhoddodd wybodaeth ar y gwasanaethau darparu bwyd gofal cartref gan ddweud mai'r nod oedd symud o'r cymorth bwyd i brynu bwyd i grwpiau bregus fyddai yn ei dro yn cefnogi pobl mewn cymunedau ac yn mynd i'r afael ag unigrwydd. Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 27 pwynt 1.11 yn yr adroddiad oedd yn amlinellu'r buddsoddiad cychwynnol gyda Sir y Fflint yn anelu i adeiladu a datblygu cegin cynhyrchu ar gyfer darparu bwyd i gymunedau a chymdeithasau tai.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones am eglurhad ar rai brawddegau yn yr adroddiad:-

- Ar dudalen 26 ym mhwynt 1.01 "nid oes gan bobl fynediad i fwyd ffres da o ddewis" a gofynnodd at beth oedd hyn yn cyfeirio. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Swyddog fod yna bobl yn defnyddio banciau bwyd ac er eu bod yn darparu gwasanaeth ardderchog nid oeddent yn darparu bwyd ffres da. Roedd yn ôl dewis yn golygu nad oedd ganddynt unrhyw le arall i fynd. Ychwanegodd y Rheolwr Budd-daliadau bod yna faterion gyda phobl yn methu cael bwyd ffres da yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Ychwanegodd fod gan bawb, beth bynnag eu cefndir, yr hawl i gael bwyd ffres da. Awgrymodd y Cynghorydd Jones y dylid ei newid i "efallai yn ôl amgylchiadau."
- Yna cyfeiriodd at y paragraff nesaf "ar gyfer pob £1 sy'n cael ei wario ar fwyd roedd 37c yn cael ei ychwanegu ar gyfer clefydau sy'n ymwneud â diet ac angen triniaeth yn ddiweddarach" a gofynnodd am eglurhad. Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Budd-daliadau bod hwn wedi'i dynnu o ddarn o ymchwil a gynhaliwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol yn edrych ar effaith ehangach ar y gwasanaeth iechyd oherwydd salwch cysylltiedig â deiet. Roedd y sylw wedi'i wneud o ganlyniad i ddeietau gwael neu pobl

ddim yn cael digon i'w fwyta yna byddai angen 37c o bob £1 i drin y bobl hynny. Dywedodd y Cynghorydd Jones fod y 37c yr hyn yr oedd yn rhaid i gymdeithas ei dalu i ddigolledu'r dewisiadau hynny a wnaed mewn blynyddoedd cynharach.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad bod y mesurau hyn yn bwysig yn arbennig wrth ymgeisio am arian ac amlinellodd y gwaith a wnaed gan awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Iechyd o ran ataliad. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau fod hon yn fenter wych yn arbennig i'r sawl oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig a fyddai nid yn unig yn cael pryd o fwyd llawn maeth ond cyswllt gyda pherson arall hefyd. Rydym hefyd angen lleihau'r nifer o ganserau a achosir gan ddeietau gwael.

Roedd y Cynghorydd Paul Johnson yn codi'r pwyntiau canlynol:-

- Ym mhwynt 1.12 yn yr adroddiad a'r pwynt bwled cyntaf "cynnwys y naratif gwerth cymdeithasol awgrymodd y dylai ond ddarllen "gwerth cymdeithasol."
- Yn yr adroddiad monitro cyfeiriwyd at y Swyddog Gwerth Cymdeithasol a'i gwestiwn oedd a oedd y rhain yn mynd i gael eu cysylltu. Gofynnodd a fyddai hwn yn dod i'r pwyllgor yn ddiweddarach i'r aelodau gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y gellir ei gyflawni o ran gwerth cymdeithasol.
- O ran y Model Cyflogaeth Moesegol gofynnodd sut fyddai hyn yn gweithio gyda'r tri phartner gwahanol a gofynnwyd a gysylltwyd â siopau trin gwallt gan mai'r unig gyswllt rheolaidd i rai pobl ynysig fyddai gyda'u siop trin gwallt. Cyfeiriodd at KIM Inspire a meddyliodd a fyddai hyn yn ffordd i ymgysylltu â phobl?

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol at lawer iawn o waith a wneir ar unigrwydd ac ynysiad oedd yn croesi i'r portffolio Tai ac Asedau. Hefyd cyfeiriodd at y gwaith a wneir o fewn y portffolio gwasanaethau cymdeithasol o ran tlodi bwyd a thlodi mislif.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad pan oedd yn gweithio yn swyddfa'r post/siopau trin gwallt oedd yn ganolbwynt y gymuned ac yn cofio adeg pan oedd preswylydd oedrannus wedi cael strôc a neb yn gwybod, roedd yn ymwneud â chael y cysylltiadau hynny yn y cymunedau. Yna cyfeiriodd at gaffael gwasanaethau a'r angen i sicrhau bod yna elfen gymdeithasol. Ychwanegodd y byddai'n codi hyn ac roedd wedi gwneud llawer o nodiadau.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y pwynt ar Gyflogaeth Moesegol a oedd yn bwysig yn y model hwn a dywedodd fod y tri phartner i gyd yn gweithio gyda'i gilydd ar hyn.

Dywedodd y Cadeirydd am y grŵp dros 50 oed yr oedd yn ymwneud â nhw gan ddweud unwaith yr oedd pobl yn dod draw, roeddent yn aros ac yna roedd ganddynt y rhwydwaith cymorth. Yna cyfeiriodd at y person ifanc aeth yn ddall oherwydd ei ddeiet gwael a gofynnodd beth oedd yn dod yn gyntaf, ai addysg neu cael bwyd da ar gael. Rydych angen cael y bwyd yno ac yna addysgu. Yna cyfeiriodd at bwynt y Cynghorydd Jones, i bob £1 sy'n cael ei wario ar fwyd, roedd 37c yn cael ei ychwanegu ar gyfer clefydau, a gofynnwyd pa fwyd y cyfeiriwyd ato. Cadarnhawyd bod y cyfeiriad at fwyd wedi'i brosesu, bwyd meicrodon a bwyd hallt iawn.

Dywedodd y Cynghorydd Jones am raglen a ddarparwyd i siopau trin gwallt iddynt nodi arwyddion o anawsterau a rhoi'r gallu iddynt arwyddbostio'r unigolyn hwnnw i'r gwasanaethau yr oeddent eu hangen. Dywedodd yr Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad ei bod wedi cael negeseuon gan ei siop trin gwallt lleol yn gofyn iddi am gymorth gyda chaniatâd yr unigolyn hwnnw.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Martin White a'i eilio gan y Cynghorydd David Wisinger.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y pwyllgor yn cefnogi a chymeradwyo'r cynnig am fodel Menter Gymdeithasol newydd a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at leihau tlodi bwyd yn y Cyngor.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**26. MENTER BWYD SIR Y FFLINT AC YMATEB I'R TLODI BWYD (ATODIAD CYFRINACHOL I EITEM RHIF 6 AR Y RHAGLEN)**

Cwestiynau ar y Cynllun Busnes

Roedd y Cynghorydd Geoff Collett yn canmol y tîm ar gyflwyniad da iawn. Cyfeiriodd at yr amser yr oedd teulu yn ei gymryd i baratoi pryd o fwyd oedd wedi lleihau o ddwy awr a hanner i 6 munud oedd yn amlygu bod yna angen addysgu pobl. Teimlodd fod hyn yn rhywbeth cenedliadol gan nad oedd plant yn cymryd rhan yn coginio.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad at ymweliad â phrosiect bagiau bwyd gwyrdd yn Yr Wyddgrug lle roeddent yn gorfod rhoi cardiau cyfarwyddyd ar sut i goginio llysiau yn y bagiau. Cytunodd fod angen addysgu plant sut i baratoi bwyd a philio llysiau ac ati.

Eglurodd y Rheolwr Budd-daliadau fod y model menter gymdeithasol wedi'i ddylunio ar gyfer pob maes o ansicrwydd bwyd o offer bwyd, gwybodaeth a sgiliau, fforddiadwyedd ac amser coginio. Darparodd wybodaeth ar fodel Lerpwl a dywedodd nad cymorth bwyd oedd hyn ond newid tymor hir. Ychwanegodd nad oedd pobl mewn argyfwng oedd yn llwgu yn gallu delio gyda'r materion eraill oedd yn mynd ymlaen yn eu bywydau.

Cytunodd yr Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau gyda phopeth oedd yn cael ei ddweud ac roedd yn cofio ei blentyndod lle roedd gwyddoniaeth ddomestig yn rhan fawr o'r ysgol a gartref roedd y teidiau a neiniau yn dysgu'r

wyrion sut i goginio a phobi. Mewn cyferbyniad roedd yna ddibyniaeth ar fwydydd parod, cludo bwyd parod i'r cartref ac ati.

Cytunodd y Cynghorydd Johnson ac roedd yn ffafrio'r agwedd gwerth cymdeithasol ac ychwanegodd fod yna'r mater tlodi tanwydd. Cyfeiriodd at y siop bwyd cyfleus ar dop Holway lle roedd pobl yn ei chael hi'n anodd cario eitemau mawr tra'n delio gyda chadair wthio neu ffrâm gerdded. Gofynnodd a oedd yna unrhyw ffordd i gynnwys yr eitemau mwy yn y ddarpariaeth o fewn y gwasanaeth hwn a sicrhau mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus.

Ymatebodd y Rheolwr Budd-daliadau gan ddweud nad oedd hyn yn rhywbeth a ystyrir ar hyn o bryd ond gallai ddod allan o'r gwaith cydnerthu cymunedol a chyfeiriodd at yr hyn yr oedd y Cynghorydd Mullin yn ei ddweud am deuluoedd neu gymdogion yn edrych allan am ei gilydd. Efallai y byddai canlyniad y gwaith cydnerthu cymunedol yn gofyn i'r siopau bwyd cyfleus os byddent yn cludo bwyd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y bwydydd heb unrhyw werth maeth o gwbl a dywedodd am arbrawf yn y 1960au lle roedd y llygod mawr oedd yn bwyta'r bocsys prydau parod yn gwneud yn well na'r llygod mawr oedd yn bwyta'r bwyd parod. Efallai bod angen amlygu cyn lleied o werth maeth oedd yn y prydau parod hyn.

Roedd y Cynghorydd Jones yn meddwl beth oedd y gwahaniaeth rhwng gwerth maeth a dietegol. Cyfeiriodd at y dewis bwyd ar dudalen 75 o'r adroddiad a gofynnodd a fyddai gan y pwyllgor fewnbwn i'r cynhwysion. Hefyd gofynnodd os oedd yna lai o gadwolion a fyddai'n para am gyfnod byrrach. Gyda phryderon gordewdra dros ddeiet uchel mewn siwgr, uchel mewn carbohydradau, teisennau crwst a chacennau efallai y dylid nodi mai dyma rydym yn ei ddarparu os nad ydych eisiau'r rhain yna ni fyddwn yn eu darparu. Dywedodd y Rheolwr Budd-daliadau fod yr ocsigen yn cael ei dynnu pan mae prydau parod yn cael eu selio ac yn cadw'n ffres yn yr oergell am 8 i 10 diwrnod felly ni ddefnyddir cadwolion. Roedd y model yn ymwneud ag ymgysylltu â chymunedau.

Dywedodd y Cadeirydd fod hon wedi bod yn drafodaeth dda ond nid oeddem yma i graffu yn y ffordd arferol ond i edrych ar syniadau a chyflwyno syniadau.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones am benderfyniad y Cadeirydd i drafod ei bryderon gyda'r pwyllgor ynglŷn â chanolfannau hamdden. Roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu torri'r grant nofio am ddim yn ddiweddar a ddarparwyd i Sir y Fflint oedd wedyn yn ei ddosbarthu i'r canolfannau hamdden ac roedd hyn yn effeithio ar holl Ganolfannau Hamdden. Byddai Canolfan Hamdden Treffynnon yn derbyn £10,000 yn llai y flwyddyn nesaf ond oherwydd nad oedd yn rhan o Sir y Fflint, roedd hefyd yn golygu y byddai Treffynnon hefyd yn colli £5,000 ym mis Tachwedd. Effeithir ar Cambrian Aquatics ac Aura hefyd. Byddai cynllun busnes eleni yn profi'n anodd iawn. Efallai bod y Gweinidog wedi torri'r grant i Sir y Fflint ond roeddent hefyd yn torri'r cyllid i Gyrff Elusennol hefyd.

Byddai'r Cynghorydd Jones yn ysgrifennu at y Gweinidog i fynegi pryderon ond roedd eisiau hysbysu'r Pwyllgor am y sefyllfa.

## 27. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o’r wasg na’r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.30 am)

..................................................

**Cadeirydd**